
Fersiwn 3:
Mai 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Grant Busnes i Ffermydd: Gorchuddio Iardiau

## Llyfryn Rheolau Cyffredinol a Rhestro Eitemau Cymwys

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

© Hawlfraint y Goron 2020
WG41460 ISBN Digidol 978-1-80082-362-4

OGL

# Cynnwys


| Pwnc | Rhif y Dudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth Bwysig | 2 |
| Negeseuon Allweddol | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau: Pwy sy'n Gymwys | 7 |
| Gwneud Cais am Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau | 15 |
| Taliadau | 21 |
| Newidiadau i Reolau'r Cynllun | 24 |
| Archwiliadau a Chadw Cofnodion | 25 |
| Y Weithdrefn Apelio a Chwyno | 26 |
| Hysbysiad Preifatrwydd | 29 |
| Cysylltiadau | 31 |
| Atodiad A – Rhestr o eitemau cymwys a matrics sgorio | 33 |
| Atodiad B – Nodiadau Technegol | 40 |

## Gwybodaeth Bwysig

- Cyflwynir Datganiadau o Ddiddordeb a hawliadau am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau drwy RPW Ar-lein.
- Gallwch gyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb mewn mwy nag un cyfnod ymgeisio gyda throthwy isaf o £3,000 fesul cais. Trothwy uchaf y grant yw £12,000.
- Mae'r cynllun hwn ar wahân i'r prif Grant Busnes i Ffermydd.
- Bydd angen cyflwyno ffotograffau â geotag ar y cam Datganiadau o Ddiddordeb a hawliadau
- Ar gyfer eitemau sylfaenol (toeau) mae angen o leiaf bedwar ffotograff, wedi'u tynnu o wahanol onglau. Lle mae lleoliad yn caniatáu, o gyfeiriad Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin.
- Cynigir contractau i gwsmeriaid a ddewisir ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau a bydd yn rhaid iddynt gael eu derbyn o fewn 21 diwrnod i ddyddiad cynnig y contract.
- Efallai y cewch gynnig contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddion Iardiau i rai, ond nid pob un o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn eich Datganiad o Ddiddordeb.

**I dderbyn neu wrthod cynnig o gontract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, rhaid ichi glicio ar y 'botwm glas' ar hafan RPW Ar-lein.**

- Ni ddylid prynu eitemau nes i'r contract gael ei dderbyn.
- Rhaid cwblhau'r buddsoddiad a chyflwyno'r hawliad cyn dyddiad gorffen y contract.
- Rydych bellach yn gymwys i wneud cais os gwnaethoch lwyddo i gael eich dewis ar gyfer cylchoedd 1, 2 a 3, neu gylchoedd dilynol, y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy.

**I hawlio taliad y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, rhaid ichi gyflwyno:**

- **hawliad am Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau drwy RPW ar-lein, gan ddefnyddio'r dudalen Hawlio Gwaith Cyfalaf.**
- **anfonebau ar gyfer pob eitem rydych yn hawlio amdani sy'n cynnwys mesuriadau'r to**

- **Ffotograffau â geotag sy'n dangos lleoliad y buddsoddiad a bod y gwaith wedi'i gwblhau, angen o leiaf bedwar llun, wedi'u tynnu o wahanol onglau.  Lle mae lleoliad yn caniatáu, o gyfeiriad Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin.**
- **Ffotograff â geotag yn dangos lleoliad y tanc/storfa slyri.**
- **Lluniau â geotag y tu hwnt i'r pellter 30 metr a ganiateir o leoliad yr eitem i ychwanegu cyd-destun a chefnogi'r llun â geotag ar gyfer lleoliad yr eitem**
- **llythyr cyfrifydd sy'n cadarnhau bod trosiant y busnes yn cyfateb i £1m neu lai**
- **Tystiolaeth eich bod wedi cael caniatâd cynllunio neu gadarnhad gan yr Awdurdod Lleol nad oes angen caniatâd cynllunio**
- **Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy os yw'n briodol**
- **Tystiolaeth bod o leiaf 14 diwrnod o rybudd wedi'i roi i CNC yn ysgrifenedig cyn bod storfa newydd, wedi'i hehangu neu ei hailadeiladu'n sylweddol, sy'n cynnwys slyri neu silwai wedi dechrau cael ei hadeiladu.**

Mae hon wedi bod yn broblem gyffredin yng nghylchoedd blaenorol y Grant Busnes i Ffermydd, gyda hawliadau anghyflawn yn cael eu cyflwyno. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y caiff yr holl wybodaeth hon ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio. Darllenwch y canllawiau ar gyflwyno ffotograffau â geotag cyn dechrau ar y gwaith.

## Negeseuon Allweddol

- Datblygwyd y Datganiad o Ddiddordeb yn ddigidol ac mae ar gael drwy wasanaeth RPW Ar-lein. Rhaid cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb drwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiadau cau cyhoeddedig.

- Os nad ydych wedi'ch cofrestru â RPW Ar-lein eto, ewch i wefan Llywodraeth Cymru i weld y canllaw sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

- Mae canllawiau ar gwblhau'r ffurflen Datgan o Ddiddordeb ar-lein ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Nid yw'n ofynnol mynd i ddigwyddiad 'Ffermio i'r Dyfodol' fel rhan o'r broses gwneud cais ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

- Y grant mwyaf y gellir ei roi yw £12,000

  Y grant lleiaf y gellir ei roi yw £3,000

  Gall y grant gyfrannu hyd at 40% tuag at fuddsoddiadau cyfalaf safonol wedi'u costio mewn cyfarpar, y nodwyd ymlaen llaw ei fod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnesau fferm.

- Gall Datganiad o Ddiddordeb fod yn fwy na'r grant mwyaf drwy ychwanegu un eitem. Os caiff ei ddewis, ni chewch hawlio mwy na'r grant mwyaf o £12,000.

- Mae'r cynllun hwn ar wahân i'r prif Grant Busnes i Ffermydd ac, felly, os byddwch wedi cael taliad ar gyfer y prif gynllun, ni fydd yn cyfrif tuag at werth y grant mwyaf o £12,000 ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau. Yn yr un modd, ni fydd gwerth y taliad a geir ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn cyfrif tuag at unrhyw gyfnodau ymgeisio ar gyfer y prif Grant Busnes i Ffermydd yn y dyfodol.

- Os ydych wedi gwneud cais am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau mewn unrhyw gyfnodau ymgeisio blaenorol a bod eich Datganiad o Ddiddordeb wedi cael ei ddewis, ond na chyrhaeddodd yr uchafswm o £12,000, gallwch wneud cais yn y cyfnod ymgeisio hwn neu mewn cyfnod ymgeisio yn y dyfodol. Rhaid i'r grant rydych yn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar ei gyfer fod yn werth £3,000 neu fwy. Os ydych wedi gwneud cais llwyddiannus yn flaenorol, caiff cyfraniad y grant ei gapio i unrhyw swm sydd ar gael ichi sydd islaw trothwy isaf y grant, sef £3,000.

- Ceir rhestr o eitemau cyfalaf cymwys yn y llyfryn hwn yn Atodiad A.

- Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, bydd yn rhaid ichi brynu'r holl eitemau y byddwch wedi gwneud cais amdanynt a’u cefnogi wedi’u prynu a'u gosod.
- Caiff eich hawliad ei wrthod a chaiff unrhyw grant a dalwyd ei adennill os nodir unrhyw un o'r canlynol:
    - Bod yr eitemau o'r math neu'r disgrifiad anghywir;
    - Eich bod wedi prynu eitemau cyn i'r contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau gael ei dderbyn;
    - Nad ydych wedi prynu'r holl eitemau a restrir yn y contract;
    - Nad yw'r holl eitemau rydych yn hawlio grant amdanynt yn bresennol ar eich daliad pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad;
    - Nad yw'r holl eitemau rydych yn hawlio grant amdanynt yn bresennol ar eich daliad yn ystod archwiliad.
    - Nid yw'r eitem yn bodloni'r gofynion a'r disgrifiadau a nodir yn Atodiad A
- Mae'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

## Adran A – Cyflwyniad

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn gynllun grant Cyfalaf sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru.  Nodau'r cynllun yw:

Cefnogi gwelliannau i brosesau rheoli maetholion ar ffermydd

Gwella seilwaith presennol ar ffermydd drwy wahanu dŵr glaw/dŵr glân oddi wrth ddŵr brwnt, slyri anifeiliaid, tail anifeiliaid neu elifion silwair

Helpu i wahanu dŵr glaw a slyri oddi wrth ardaloedd bwydo da byw, ardaloedd casglu da byw, ardaloedd storio tail, storfeydd slyri a storfeydd silwair presennol.

Mae'r Nodiadau Canllaw hyn yn esbonio'r broses o wneud cais am **Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau**. Darllenwch nhw'n ofalus. Wedyn, os byddwch yn credu y gallai'ch cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys am grant a'ch bod am wneud cais am help o dan y cynllun hwn, darllenwch Adran C a'r llyfryn Sut i Gwblhau.

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Bwriedir iddo helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

**Amcanion y cynllun:**

- cynyddu'r buddsoddiad mewn ffermydd
- gwella perfformiad technegol
- cynhyrchu mwy am yr arian a werir ar ffermydd
- defnyddio adnoddau ffermydd yn fwy effeithlon

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn darparu ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn cyfarpar y nodwyd ymlaen llaw ei fod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnes eich fferm. Mae'r eitemau cyfalaf wedi'u nodi ynghyd â chost safonol.

Bydd ceisiadau am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn helpu i gyflawni amcanion strategol a thematig Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithgareddau o dan y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn mynd i'r afael ag **o leiaf un** o Feysydd Ffocws canlynol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

**Maes Ffocws 5.** Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau a chefnogi'r symudiad at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sector amaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth;

5b) sicrhau bod y diwydiant amaethyddol a'r diwydiant prosesu bwyd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon

5d) lleihau allyriadau ocsid nitraidd a methan yn y sector amaethyddiaeth.

Mae'r cynllun yn un dewisol. Byddai swm y grant a gynigid yn ymwneud ag amgylchiadau unigol a byddai bob amser yn cyfateb i'r **isafswm sydd ei angen** er mwyn i'r buddsoddiadau allu mynd yn eu blaen.

Mae'r eitemau sydd ar gael drwy'r cynllun yn cwmpasu'r pum thema ganlynol:

- Iechyd Anifeiliaid, Perfformiad a Geneteg.
- Rheoli Cnydau.
- Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon.
- Arbed Ynni.
- TGCH.

Mae'r system ar gyfer rhoi cymorth ariannol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau wedi'i chymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Caiff unrhyw newidiadau pellach eu cyhoeddi drwy wefan Llywodraeth Cymru, GWLAD ar-lein a, lle y bo angen, byddwn hefyd yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

Cyn ichi benderfynu a all y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau fod o fudd i'ch busnes, gallech ystyried cysylltu â Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn cynnig nifer o wasanaethau a ariennir yn llawn a gwasanaethau eraill sy'n cael cymhorthdal o 80%, a gall eich helpu i ddatblygu eich busnes er mwyn gwella ei berfformiad economaidd ac amgylcheddol. Ariennir y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau drwy Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd i ffurfio rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.

Rheolir y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau gan Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 Rhif 3222(W327); Rheoliadau'r Cyngor (UE) Rhif 1305/2013, 1303/2013 ac (UE) Rhif 1306/2013, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 ac (EU) Rhif 809/2014 a Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 640/2014 ac 807/2014 (fel y diwygir pob un ohonynt o bryd i'w gilydd). Ceir copïau o'r rheoliadau hyn ar wefan EUR-Lex (eur-lex.europa.eu) neu gellir gofyn i Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru am gopi.

## Adran B – A yw Busnes Fferm yn Gymwys i gael Grant

### Rydych yn gymwys i wneud cais os:

- Ydych wedi'ch cofrestru â Llywodraeth Cymru a'ch bod wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i weld y canllaw sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

  - Rhaid ichi:
  - Fod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol
    - Fod â 3ha o dir amaethyddol cymwys sydd wedi'i gofrestru ag RPW yng Nghymru **neu**
    - Gallu dangos dros 550 o oriau llafur safonol

      Byddwn yn edrych i weld a oes gennych hawliad cymwys o dan y Cynllun Taliad Sylfaenol neu hawliad Organig Glastir cymwys er mwyn cadarnhau:

1. Eich bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol

2. Bod gennych 3ha o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru.

Os nad ydych wedi cyflwyno hawliadau ar gyfer yr un o'r cynlluniau hyn neu os na allwn wirio'r tir, rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol **gyda'ch Datganiad o Ddiddordeb** er mwyn cadarnhau eich bod yn gynhyrchydd cynradd cynhyrchion amaethyddol a'ch bod yn bodloni naill ai'r maen prawf cymhwysedd 3ha neu'r maen prawf cymhwysedd 550 o oriau llafur safonol

- Bod gan eich busnes drosiant o £1m neu lai (**er mwyn cael taliad o dan y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau, rhaid ichi gyflwyno llythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau trosiant eich busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol fwyaf diweddar y mae cyfrifon ar gael pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad**).

- Mae'r cynllun yn agored i Ddatganiadau o Ddiddordeb gan amrywiaeth eang o fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu **cynhyrchion amaethyddol** cynradd, megis:
  - unig fasnachwyr
  - sefydliadau yn y sector gwirfoddol
  - cwmnïau preifat a chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus (Busnesau Bach a Chanolig (BBChau) a Busnesau Mawr)
  - busnesau fferm a chwmnïau cydweithredol
  - busnesau newydd, gan gynnwys busnesau sy'n dechrau.
- Mae'r sectorau ffermio canlynol yn ymwneud â chynhyrchu cynhyrchion amaethyddol cynradd:
  - cnydau âr
  - eidion
  - llaeth
  - geifr
  - garddwriaeth (gan gynnwys hydroponeg ac acwaponeg)
  - moch
  - dofednod
  - defaid

- cadw gwenyn.

## Nid ydych yn gymwys os:

- ydych yn gwsmer sy'n cadw Ceffylau (gan gynnwys ceffylau pori)
- ydych yn gwsmer yn y sector Coedwigaeth (gan gynnwys pobl sy'n berchen ar goetir yn unig)
- oes gan eich busnes gyfanswm trosiant o fwy na £1m. Y cyfanswm trosiant yw holl incwm y busnes sy'n mynd drwy un cyfrif busnes; gall hyn gynnwys incwm amaethyddol ac incwm ar gyfer gwaith arallgyfeirio anamaethyddol. Ni ddylai incwm o fusnesau gwahanol gael ei gyfuno at y diben hwn
- grŵp o ffermwyr (gan gynnwys Sefydliadau Cynhyrchwyr)
    - fodd bynnag, bydd dau ddaliad amaethyddol neu fwy sy'n cael eu rheoli fel un uned, neu sy'n eiddo i un perchennog neu sydd, o leiaf i ryw raddau, yn rhannu'r un rheolwyr, yr un cyfrifon ariannol, yr un da byw, peiriannau a/neu storfeydd bwyd, yn cael eu hystyried yn un busnes.

## Nod

Cefnogi gwelliannau i brosesau rheoli maetholion ar ffermydd

Gwella seilwaith presennol ar ffermydd drwy wahanu dŵr glaw oddi wrth ddŵr brwnt, slyri anifeiliaid, tail anifeiliaid neu elifion silwair

Gwahanu dŵr glaw a slyri oddi wrth ardaloedd bwydo da byw, ardaloedd casglu da byw, ardaloedd storio tail, storfeydd slyri a storfeydd silwair presennol.

**Gofynion:**

Ar gyfer ardaloedd bwydo da byw, ardaloedd casglu da byw ac ardaloedd storio tail presennol, rhaid i ymgeiswyr ddangos bod gan yr ardal lawr na all dŵr dreiddio iddo e.e. concrid.

Bydd angen dangos y llawr presennol yn y cais gan ddefnyddio ffotograffau â geotag.

Os bydd adeiladu to dros storfa silwair neu slyri yn debygol o effeithio ar gyfanrwydd y strwythur presennol,: Rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i CNC yn ysgrifenedig cyn i'r gwaith o adeiladu storfa newydd, wedi'i hehangu neu ei hailadeiladu'n sylweddol sy'n cynnwys silwair ddechrau.

Argymhellir yn gryf eich bod yn lleihau'r risg o golli unrhyw eithriad sydd gennych ar hyn o bryd ar gyfer eich stôr ac yn lleihau'r risg o dderbyn hysbysiad gorfodi drwy gynnwys CNC yn gynnar yn y cam cynllunio er mwyn atal gwallau costus rhag cael eu gwneud.

Noder, os oes angen caniatâd cynllunio arnoch, mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio.

Rhaid cyfeirio'r dŵr glaw wedi'i wahanu o'r ardal sydd newydd ei gorchuddio i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw briodol. Rhaid ymgorffori cafnau glaw / pibellau glaw priodol yn y strwythur newydd. Rhaid dargyfeirio gorlif o system cynaeafu dŵr glaw i ddraen dŵr glân. Rhaid dargyfeirio slyri o'r ardal wedi'i gorchuddio i storfa / tanc casglu.

Rhaid cynnwys yr holl slyri yn yr ardal yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i ddargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n addas neu danc derbyn priodol.

Rhaid dargyfeirio dŵr ffo o'r storfa dail i storfa slyri neu bwll derbyn slyri presennol. Os nad oes storfa ar gael ar hyn o bryd bydd angen i'r holl elifiant gael ei gyfyngu i'r storfa.

Dylai pob adeilad gyrraedd Safon Brydeinig BS 5502 rhan 22:2013 – wedi'i gynllunio i wrthsefyll y llwythi nodweddiadol y caiff ei amlygu iddynt, yn seiliedig ar y defnydd a wneir ohono a'i leoliad. Os bydd yn cael ei weithgynhyrchu oddi ar y safle i'w chodi'n ddiweddarach, dylai'r uned ddwyn nod CE.

Ar gyfer unrhyw strwythur nad yw'n dwyn nod CE, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn cydymffurfio â BS 5502 rhan 22:2013 drwy ddarparu cyfrifiadau strwythurol gan beirianwyr â chymwysterau addas.

Bydd angen i ddeunyddiau'r to allu gwrthsefyll rhwd a lleihau cyddwysiad. Er mwyn sicrhau hyn, dylai'r cladin fod wedi'i wneud o sment ffeibr neu, fel arall, ddur proffiliedig wedi'i inswleiddio ag araen o blastig os gall hyn fodloni'r gofynion o ran gwrthsefyll rhwd. Dylai tulathau fod wedi'u gwneud o bren wedi'i drin neu ddur galfanedig – pren wedi'i drin sydd orau. Er bod gwaith dur wedi'i baentio yn ddigon da, byddai dur galfanedig yn ddewis gwell am ei fod yn para'n hirach.

Dogfennau cymeradwyo cynllunio neu dderbynneb gan yr awdurdod cynllunio lleol i ddangos bod cais cynllunio wedi'i gyflwyno neu nad oes angen caniatâd cynllunio. Ni fydd angen cael caniatâd cynllunio llawn ar y cam gwneud cais ond bydd angen ei gael cyn i'r taliad gael ei gymeradwyo.

Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy os yw'n briodol.

Bydd angen cyflwyno ffotograffau â geotag cyn ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, er mwyn dangos bod cymorth wedi'i ddarparu ar gyfer meysydd cymwys o seilwaith fferm. Ar gyfer eitemau sylfaenol mae angen o leiaf bedwar llun ar gyfer pob eitem, tynnwch o wahanol onglau i ddangos tystiolaeth o'r ardal gyfan yn y cais. Lle mae lleoliad yn caniatáu, o gyfeiriad Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin.

Gweler y ddogfen ar wahân, Grant Busnes i Ffermydd – Canllawiau ar Ffotograffau â Geotag o Orchuddion Iardiau, am fanylion am sut i gyflwyno eich ffotograffau â geotag.

Pan gyflwynir y Datganiad o Ddiddordeb, rhaid i ffotograffau â geotag ddangos y canlynol:

- Yr ardal sydd i'w gorchuddio a'r defnydd a wneir ohoni ar hyn o bryd
- Lleoliad yr ardal mewn perthynas â strwythurau parhaol cyfagos.
- Y llawr presennol i'r ardal gyfan.
- Lleoliad bwriadedig eitemau cefnogol
- Os ydych yn gwneud cais am eitemau cefnogol a fydd mewn mwy nag un lleoliad bydd angen i chi gyflwyno ffotograffau sy'n dangos pob lleoliad
- Ar gyfer eitemau sylfaenol (toeau) mae angen o leiaf bedwar ffotograff, wedi'u tynnu o wahanol onglau. Lle mae lleoliad yn caniatáu, o gyfeiriad Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin.

Gellir cyflwyno lluniau â geotag ychwanegol, a gymerwyd y tu hwnt i'r pellter a ganiateir o 30 metr i leoliad yr eitem, i ychwanegu cyd-destun a chefnogi'r llun â geotag ar gyfer lleoliad yr eitem.

Pan gyflwynir yr hawliad terfynol, rhaid i ffotograffau â geotag ddangos y canlynol:

- y to newydd
- Lleoliad yr ardal mewn perthynas â strwythurau parhaol cyfagos.
- Allfa / dull o gasglu slyri o'r man dan do a'r llwybr at danc/storfa.
- Lleoliad y storfa slyri / pwll derbyn
- Gosod eitemau cefnogol, ac eithrio pecynnau dadansoddi slyri.
- Os ydych yn hawlio am eitemau cefnogol sydd mewn mwy nag un lleoliad bydd angen i chi gyflwyno ffotograffau sy'n dangos pob lleoliad
- Ar gyfer eitemau sylfaenol (toeau) mae angen o leiaf bedwar llun i ddangos y to newydd a gymerwyd o wahanol onglau. Lle mae lleoliad yn caniatáu, o gyfeiriad Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin.

Bydd angen i ffotograffau ddangos lleoliad yr ardal, y defnydd a wneir ohoni ac, os yw'n briodol, y llawr. Os bydd y llawr wedi'i orchuddio â slyri neu dail, bydd angen golchi'r ardal briodol cyn tynnu ffotograffau â geotag.

Ar gyfer storfeydd slyri a silwair sy'n llawn a lle na ellir gweld y llawr, bydd angen ategu ffotograffau o'r ardal sydd i'w gorchuddio â disgrifiad o'r llawr. Bydd angen cyflwyno tystiolaeth ffotograffig o'r llawr cyn i'r grant gael ei dalu. Os canfyddir wedyn fod dŵr yn gallu treiddio i'r llawr e.e. nad yw wedi'i wneud o goncrid, efallai y caiff yr hawliad ei wrthod.

Ar gyfer ardaloedd storio slyri nad ydynt yn cael eu gwagio'n llwyr yn ystod y flwyddyn sy'n golygu nad oes modd tynnu ffotograffau o'r llawr, efallai y caiff hawliadau eu harchwilio cyn i'r grant gael ei dalu.

Os byddwch yn cyflwyno ffotograffau nad ydynt yn rhoi darlun clir o'r ardal sydd i'w gorchuddio a'r llawr, efallai y caiff y cais ei wrthod.

**Costau anghymwys:**

Adeiladu ardaloedd storio tail, ardaloedd casglu da byw, ardaloedd bwydo da byw, storfeydd slyri a storfeydd silwair newydd.

Ardaloedd trin da byw ac ardaloedd bwydo â sylfaen garreg / pridd.

Ardaloedd bwydo da byw dros dro.

Iardiau cyffredinol lle nad oes slyri yn cael ei gynhyrchu.

Toeau dros ardaloedd trin da byw dros dro, e.e. unedau trin defaid / gwartheg symudol.

Waliau ochr, cysgodfannau ochr (megis 'Yorkshire boarding'), **oni bai** bod yr ymgeisydd ei hun wedi talu holl gostau eu hymgorffori.

Toeau neu adeiladau da byw newydd i gymryd lle rhai sy'n bodoli eisoes.

Addasu'r ardal sydd wedi cael y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau i'w defnyddio at ddibenion eraill, e.e. adeiladau da byw, storfeydd.

**Eitemau ategol ar gyfer systemau cynaeafu dŵr glaw:**

**Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (tanciau ar wyneb y ddaear)**

Dylai'r tanc fod wedi'i osod ar sylfaen addas ar naill ai dywod neu goncrid ar lefel y ddaear, neu ar sylfaen adeiledig er mwyn darparu lle clir ar gyfer unrhyw allfa. Rhaid i unrhyw sylfaen neu stand fod yn ddigon mawr i allu cynnal y tanc pan fydd yn llawn a gwneud hynny dros oes y tanc. Mae BS 8515 yn ymdrin â dyluniad ac adeiladwaith systemau cynaeafu dŵr glaw ac mae'n rhaid i unrhyw system cynaeafu dŵr glaw gydymffurfio â BS 8515.

**Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (tanciau o dan y ddaear)**

Mae BS 8515 yn ymdrin â dyluniad ac adeiladwaith systemau cynaeafu dŵr glaw ac mae'n rhaid i unrhyw system cynaeafu dŵr glaw gydymffurfio â BS 8515.

# Caniatadau

Os ydych yn bwriadu ymgymryd â Gwaith Cyfalaf sy'n cynnwys tarfu ar y ddaear ar safle Heneb Gofrestredig neu Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol neu'n agos ato, bydd angen cael caniatâd CADW neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru, yn y drefn honno. Byddwn yn ceisio'r caniatâd hwn ar eich rhan pan gyflwynir eich Datganiad o Ddiddordeb a chyn i gontract gael ei gynnig.

# Gweithgareddau

### Gweithgareddau cymwys

Darperir cymorth o dan y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau ar gyfer buddsoddiadau penodol mewn gweithgareddau cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol cynradd a gwmpesir gan Atodiad 1 i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU), neu gotwm, ond nid cynhyrchion pysgodfeydd.

### Gweithgareddau anghymwys

Ni ddylech ddefnyddio eitemau a brynir drwy'r Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau at ddibenion contractio amaethyddol.

# Costau

### Costau Cymwys

Dim ond eitemau ar y Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys a nodir yn Atodiad A i'r llyfryn hwn a gaiff eu hariannu o dan y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

Nid yw'r gost safonol yn cynnwys TAW.

Rhaid i'r eitemau hyn fodloni'r fanyleb **ofynnol** a ddisgrifir

### Costau Anghymwys

Nid yw eitemau ail-law yn gymwys i gael Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

### Uchafswm Cyfradd Grant ac Uchafswm Trothwy Grant

Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus i brosiect y buddsoddiad, sy'n cynnwys:

- arian gan yr UE;
- cyd-gyllid i gronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru;
- arian gan adrannau ac asiantaethau eraill o'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol;
- arian gan gyrff a reolir gan y llywodraeth megis y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol;
- arian o drethi ardrethiannol (ardollau).

Os ceir arian cyhoeddus gan yr UE neu'r DU er mwyn helpu i dalu costau prosiect, caiff ei ddisgowntio yn erbyn y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

Y grant mwyaf y gellir ei roi yw **£12,000**.

Y grant lleiaf y gellir ei roi yw **£3,000**.

Gall y grant gyfrannu hyd at 40% o werth buddsoddiadau cyfalaf mewn cyfarpar a pheiriannau y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddiannau clir a mesuradwy i fusnesau fferm.

Gall eich Datganiad o Ddiddordeb fod yn fwy na'r grant mwyaf drwy ychwanegu un eitem. Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, ni chewch hawlio mwy na'r grant mwyaf o £12,000.

Os byddwch yn derbyn contract o dan y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, ond na fyddwch yn cyflwyno hawliad dilys ar gyfer unrhyw eitem fuddsoddi, caiff gwerth y contract a dderbyniwyd ei ddidynnu o'r uchafswm o £12,000 mewn unrhyw gontract dilynol o dan y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

E.e. cyflwynir Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y cylch hwn a chynigir contract. Cyfanswm gwerth y contract yw £8,000. Derbynnir y contract, ni chyflwynir hawliad dilys, y cyfanswm sydd ar gael ar gyfer unrhyw gyfnodau ymgeisio dilynol yw £4,000.

# Adran C – Gwneud cais am Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau

## Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb

## RPW Ar-lein

Dim ond drwy fynd i wefan Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein y gallwch gwblhau Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, dylech fod wedi cael llythyr yn eich hysbysu o'ch Cod Actifadu i sefydlu eich cyfrif. Os nad oes gennych y cod hwn mwyach, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 a rhowch eich CRN i'r gweithredwr. Bydd yn anfon Cod Actifadu newydd atoch.

Er mwyn cofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, bydd angen ichi gwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein. Gweler y canllaw sut i gofrestru am ragor o fanylion. Gellir gwneud y mwyafrif helaeth o newidiadau i fanylion busnes ar-lein. Fodd bynnag, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ragor o fanylion am unrhyw newidiadau mawr. Cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid i gael rhagor o wybodaeth

Ar ôl ichi gofrestru, gallwch fynd i'ch cyfrif RPW Ar-lein. Mae'r Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau ar gael o adran “Ffurflenni” eich cyfrif.

Bydd angen i asiantau sy'n gweithredu ar ran cleient gofrestru fel asiant Taliadau Gwledig Cymru. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech gwblhau'r ffurflen Manylion Asiant / Cwsmer Undeb Ffermio (Cymru) ar-lein neu gwblhau copi papur o'r ffurflen honno ar unwaith. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Ar ôl inni gael y ffurflen, byddwn yn anfon Cyfeirnod Cwsmer Asiant (CRN Asiant) a Chod Actifadu RPW Ar-lein atoch. Bydd hefyd angen ichi gwblhau Ffurflen Awdurdodi Cymdeithas y gellir ei chwblhau ar ôl ichi gofrestru â RPW Ar-lein, gweler ein canllaw sut i gofrestru.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar gyfer RPW Ar-lein neu gwblhau eich Datganiad o Ddiddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.  Bydd yn gallu rhoi cyngor ichi, gan gynnwys y cymorth digidol sydd ar gael ichi.

Ceir rhagor o fanylion am RPW Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Dewis eitemau o'r rhestr o eitemau cymwys yn Atodiad A**

Mae Atodiad A yn rhestru'r holl eitemau cymwys y gallwch wneud cais ar eu cyfer o dan gynllun y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.  Nodir bod eitemau yn ‘Brif Eitemau’ ac yn ‘Eitemau Ategol’.

Bydd Prif eitemau yn cyflawni amcanion y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.

**Mae'r eitemau Ategol yn rhai dewisol, ond maent yn amodol ar ddewis Prif eitem yn gyntaf.** Maent wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau y gall y Brif eitem gyflawni ei hamcanion neu er mwyn sicrhau bod y Brif eitem yn cynnig arbediad mewn perthynas â chyflawni ei hamcanion.

Rhaid ichi dynnu ffotograffau â geotag o'r safle **cyn** y gwaith arfaethedig wrth gyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb.

Gweler y ddogfen ar wahân, Grant Busnes i Ffermydd – Canllawiau ar Ffotograffau â Geotag o Orchuddion Iardiau, am fanylion am sut i gyflwyno eich ffotograffau â geotag. Rhaid ichi ddefnyddio gwasanaeth Rheoli fy Nhir RPW Ar-lein i hysbysu RPW o gofrestriadau tir. Rhaid ichi gyflwyno eich cyflwyniad Rheoli fy Nhir a'r holl ddogfennau ategol er mwyn ein hysbysu o gofrestriadau tir er mwyn i eitemau a ddewiswyd ar y tir hwnnw fod yn gymwys i gael eu hystyried i'w dewis.

**Sgorio'r Datganiad o Ddiddordeb**

Mae pob Prif eitem gyfalaf wedi'i sgorio ac mae proses ddilysu annibynnol wedi'i chynnal yn erbyn y pedwar maen prawf canlynol:

a. Iechyd a Lles Anifeiliaid

b. Iechyd a Diogelwch

c. Effeithlonrwydd Technegol

d. Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Nodir y sgôr sy'n deillio o hynny yn Atodiad A – Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys yn erbyn pob eitem.

Pan gyflwynir eich Datganiad o Ddiddordeb, caiff pob Prif eitem ei sgorio. Wedyn, caiff y sgôr ar gyfer pob eitem ei lluosi â ffactor ar gyfer ble mewn ardal â blaenoriaeth o ran ansawdd dŵr y mae wedi'i lleoli a chaiff sgôr ardal â blaenoriaeth o ran swm dŵr ei hychwanegu ati ar gyfer y parsel y mae'r Brif eitem wedi'i leoli o'i fewn. Caiff sgoriau eu hychwanegu lle mae'r brif eitem wedi'i lleoli mewn ardal â blaenoriaeth o ran misglod perlog yr afon neu wyniaid. Mae'r matrics sgorio wedi'i gynnwys yn Atodiad A.Gellir gweld mapiau sy'n dangos lleoliad ardal blaenoriaeth ansawdd dŵr, blaenoriaeth maint dŵr, misglod berlog yr afon a gwyniad yma:https://llyw.cymru/map-sgorio-glastir-uwch

Bydd angen i ymgeiswyr ddewis eitemau cyfalaf hyd at y grant mwyaf y gellir ei ddyfarnu, sef £12,000, neu un eitem ychwanegol sy'n werth mwy na'r swm hwn. Bydd y system yn cyfrifo sgôr yr ymgeisydd yn awtomatig drwy gyfansymio nifer y pwyntiau yn erbyn pob eitem unigol a chyfartaleddu yn erbyn cyfanswm yr eitemau unigol y gwneir cais am grant ar eu cyfer. Caiff y sgôr gyfartalog hon ei rhannu â chyfanswm y grant y gwneir cais amdano. Caiff y prosiectau â'r sgoriau uchaf eu hystyried ar gyfer grant.

Diben y broses sgorio hon yw galluogi Llywodraeth Cymru i drefnu'r Datganiadau o Ddiddordeb yn erbyn y cyllid sydd ar gael ym mhob cais am gynigion.

Ar ôl i'r Datganiad o Ddiddordeb gael ei gyflwyno, ni allwch ddiwygio'r eitemau rydych wedi'u dewis i'w prynu.

## Y Broses Ddewis

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw na chaiff prosiectau yn Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 eu dewis ar sail y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, y bwriad yw y bydd cynlluniau o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn agor ac yn cau ar gyfer ceisiadau'n gyfnodol drwy gydol oes y rhaglen, yn dibynnu ar y dyraniadau ariannol sydd ar gael o dan y rhaglen.

Mae proses ddewis y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn asesu pob Prosiect Gwaith Cyfalaf a gyflwynir gan fusnesau ffermio drwy'r Datganiad o Ddiddordeb. Rhoddir sgôr i bob Datganiad o Ddiddordeb yn seiliedig ar ei allu i gyflawni canlyniad tuag at amcanion y Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau.

Caiff y Datganiadau o Ddiddordeb eu sgorio a'u trefnu yn ôl y meini prawf sgorio wedi'u pennu yn Atodiad A.

Caiff y Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer dyfarniad grant eu dewis mewn trefn nes i'r cyllid sydd ar gael yn y cylch hwnnw gael ei ddyrannu. Pan fo dau neu fwy o geisiadau ynghlwm wrth yr un sgôr a byddai cefnogi'r ddau gais neu fwy yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer y ffenestr, bydd Llywodraeth Cymru yn:

cyfyngu'r gyllideb sydd ar gael i'r EOI diwethaf gyda sgôr unigol unigryw.

Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn yw £2m.

## Dewis Datganiadau o Ddiddordeb Llwyddiannus

Cewch eich hysbysu a yw eich Datganiad o Ddiddordeb wedi'i ddewis drwy eich cyfrif RPW Ar-lein. Ar ôl i bob ymgeisydd llwyddiannus gael ei hysbysu ac ar ôl i gontractau gael eu derbyn, bydd RPW yn hysbysu pob ymgeisydd aflwyddiannus.

**Ymgeiswyr Llwyddiannus**

Os caiff eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis, cynigir contract ichi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Os ydych wedi gwneud cais am fwy nag un eitem ac nad ystyrir bod unrhyw un o'r eitemau hynny'n gymwys, byddwch yn cael cynnig contract ar gyfer yr eitem/eitemau cymwys yn unig.

Rhaid ichi brynu a gosod **pob un** o'r eitemau yn eich contract a hawlio ar eu cyfer drwy eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn **blwyddyn** i ddyddiad cynnig y contract.

Rhaid ichi dderbyn eich contract o fewn **21 diwrnod calendr** i ddyddiad cynnig y contract drwy'r botwm glas ar hafan RPW Ar-lein. Ni chewch brynu'r eitemau yn eich contract nes ichi ei dderbyn.

Os na fyddwch yn derbyn y contract o fewn **21 diwrnod calendr**, caiff y cynnig o gontract ei dynnu'n ôl.

Bydd y contract yn cynnwys manylion llawn ynglŷn â phryd mae'n rhaid ichi dderbyn eich contract a phryd y mae'n rhaid ichi brynu'r eitemau a hawlio ar eu cyfer.

**Amodau'r Grant**

Mae'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn ddarostyngedig i amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd / derbynnydd weithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth honno.

Cynigir Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau yn ddarostyngedig i delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu eich dyfarniad a/neu adennill y symiau a dalwyd eisoes, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy**.

**Amodau:**

Dyfernir y grant ar sail datganiadau a wneir gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais a'r ffurflen hawlio ac mewn unrhyw ohebiaeth ddilynol.

**Mae gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol yn drosedd**.

*Rhaid ichi fod wedi prynu a gosod yr holl gyfarpar a chysylltu ag RPW drwy RPW Ar-lein neu drwy'r post o fewn blwyddyn i ddyddiad cynnig y contract, sef dyddiad y penderfyniad.*

***Os na fyddwch wedi cysylltu ag RPW o fewn y cyfnod hwnnw, caiff y cynnig grant ei wrthod yn awtomatig***

Mae'n rhaid ichi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a osodir o dan gyfraith yr UE a chyfraith y DU, gan gynnwys deddfwriaeth ynglŷn ag iechyd a lles anifeiliaid neu blanhigion.

Ni ellir newid y prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgaredd, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Gweinidogion Cymru.

**Nid yw deunyddiau a chyfarpar ail-law yn gymwys i gael Grant Busnes i Ffermydd.**

Bydd angen i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ynglŷn â gwariant cymwys fel y'u nodir yn Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun.

Rhaid ichi gadarnhau nad yw'r cais yn cynnwys unrhyw eitemau a gaiff eu prynu fel eitemau newydd o dan hawliad yswiriant.

Rhaid ichi gadarnhau na wnaed cais am unrhyw arian cyhoeddus arall (gan ffynonellau yn yr UE na'r DU).

Ni ddylech waredu, trosglwyddo na gwerthu cyfarpar a brynwyd â chymorth grant yn ystod y prosiect nac am bum mlynedd o'r dyddiad

cymeradwyo heb gael caniatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw. Os bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny, rhaid i'r grant a ddyfarnwyd gael ei ad-dalu'n llawn.

Rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â'r cais a'r hawliad am y grant hwn, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill, am o leiaf saith mlynedd ar ôl y dyddiad cymeradwyo.

Mae'n rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop archwilio'r prosiect. Ar gais, mae'n rhaid ichi roi gwybodaeth iddynt a/neu roi cyfle iddynt weld dogfennaeth wreiddiol mewn perthynas â'r prosiect.

Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn ddarostyngedig i ofynion Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth Llywodraeth Cymru, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraewyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru o ran ei ariannu.

**Dylech fod yn ymwybodol, os byddwch yn llwyddiannus, fod Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu'ch cwmni, swm y grant a ddyfarnwyd ichi a chrynodeb o'ch prosiect.**

# Tynnu Datganiadau o Ddiddordeb yn ôl neu Beidio â Bwrw Ymlaen â'r Broses Ddewis

**Ar ôl i fusnes gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, a allaf ei dynnu'n ôl?**

**A. Gallwch, yn ystod cyfnod cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb sydd ar agor**

Gallwch dynnu eich cais yn ôl drwy “Fy Negeseuon” yn eich cyfrif RPW Ar-lein; gallwch ailgyflwyno Datganiad o Ddiddordeb arall cyn i'r cyfnod ar gyfer gwneud hynny gau.

**B. Gallwch, ar ôl i gyfnod ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb gau OND cyn i'r busnes gael y contract.**

Gallwch dynnu eich cais yn ôl drwy “Fy Negeseuon” yn eich cyfrif RPW Ar-lein.
Os byddwch wedi dewis yr eitemau anghywir neu wedi newid eich meddwl ynghylch yr eitemau rydych wedi'u dewis neu os na fyddwch wedi cynnwys eitemau roeddech am eu dewis, rhaid ichi dynnu eich cais yn ôl a gwneud cais eto yn y cylch nesaf. Cofiwch fod y broses yn un gystadleuol ac na ellir gwarantu y byddwch yn llwyddiannus yn y cylch nesaf.

**C. Na allwch, unwaith y bydd y busnes wedi'i ddewis a chontract wedi'i gynnig**

Ni allwn dderbyn cais i dynnu Datganiad o Ddiddordeb yn ôl unwaith y bydd contract wedi'i gynnig.

Ni allwn dderbyn newidiadau i'r eitemau yn y contract ar yr adeg hon (cewch brynu fersiwn well o'r un eitem, ond dyna'r unig newid a ganiateir).

Ar ôl ichi gael eich dewis, os byddwch yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch contract neu os na fyddwch yn derbyn contract a gynigir ichi o fewn yr amser a ganiateir, efallai na fyddwch yn gallu gwneud cais am Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau o dan unrhyw gylchoedd dilynol o'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, heb gyfiawnhad digonol dros wneud hynny.

Os byddwch yn penderfynu tynnu'n ôl o'r contract cyn cwblhau'r gwaith neu os na fyddwch yn cwblhau'r holl waith a gymeradwywyd yn eich contract, ni fyddwch yn gallu gwneud cais am Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau o dan unrhyw gylchoedd dilynol ac efallai y bydd angen ichi ad-dalu unrhyw daliadau a wnaed.

Rhaid ichi brynu a gosod pob un o'r eitemau yn eich contract a hawlio ar eu cyfer drwy eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn blwyddyn i ddyddiad cynnig y contract.

# Adran D – Taliadau

## Hawliadau

Bydd yn rhaid ichi hawlio'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau gan ddefnyddio'r dudalen Hawlio Gwaith Cyfalaf ar eich cyfrif RPW Ar-lein; caiff taliadau eu gwneud ar ôl i'ch hawliad gael ei ddilysu'n llwyddiannus.

Er mwyn inni allu talu'r Grant Busnes i Ffermydd - Gorchuddio Iardiau ichi, rhaid ichi wneud y canlynol:

- Derbyn contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau o fewn 21 diwrnod calendr i ddyddiad cynnig y contract a chydymffurfio â'r holl ofynion.
- Sicrhau mai dim ond ar ôl ichi dderbyn y cynnig o gontract rydych wedi prynu'r eitemau a restrir yn eich contract.
- Sicrhau eich bod wedi prynu **pob un** o'r eitemau a restrir yn eich contract.
- Sicrhau bod yr holl eitemau a brynwyd ar eich daliad pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad.
- Cyflwyno'r hawliad gan ddefnyddio'r dudalen Hawlio Gwaith Cyfalaf ar eich cyfrif RPW Ar-lein o fewn blwyddyn i ddyddiad cynnig y contract. Rhaid i'r holl ddogfennau ategol sydd eu hangen hefyd gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.
- Cyflwyno anfonebau ar gyfer pob eitem rydych yn hawlio grant amdani sy'n cynnwys mesuriadau'r to
- Cyflwyno ffotograffau â geotag sy'n dangos lleoliad y buddsoddiad a bod y gwaith wedi'i gwblhau
- Cyflwyno ffotograffau â geotag sy'n dangos all-lif dŵr glaw wedi'i ailgyfeirio a'r ffordd y mae slyri / elifion yn cael ei gasglu / eu casglu o'r tu mewn i'r ardal dan do a dangos bod yr eitem yn bodloni y disgrifiad a’r gofynion a nodir yn Atodiad A.
- Cyflwyno llythyr cyfrifydd sy'n cadarnhau bod trosiant y busnes yn cyfateb i £1m neu lai

- Cyflwyno Caniatâd Cynllunio
  Os bydd angen caniatâd cynllunio ar eich buddsoddiad, rhaid ichi gyflwyno'r dogfennau cymeradwyo cynllunio.

  Os bydd yr awdurdod cynllunio wedi barnu nad oes angen caniatâd cynllunio ar y prosiect, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio i gadarnhau hynny

- Cyflwyno **cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy.**

Os bydd angen cymeradwyaeth SAB ar eich buddsoddiad, rhaid ichi gyflwyno dogfennau cymeradwyo SAB gyda'ch hawliad terfynol.

Er mwyn cael trosolwg o'r hyn y mae angen cael cymeradwyaeth SAB ar ei gyfer a chanllawiau manylach, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/canllawiau-statudol.pdf

I gael gwybodaeth am geisiadau SAB am adeiladau amaethyddol, gorchuddion a buarthau glân, ewch i: https://llyw.cymru/ceisiadau-corff-cymeradwyo-systemau-draenio-cynaliadwy-suds-ar-gyfer-adeiladau-amaethyddol -a buarthau glân

Os bydd y SAB lleol wedi barnu nad oes angen system ddraenio gynaliadwy ar y prosiect, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth gan y SAB i gadarnhau hynny.

Efallai na fydd angen cael caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer rhai ceisiadau ar gyfer gwaith adeiladu sydd â goblygiadau draenio y mae angen iddynt gael eu cymeradwyo gan y SAB (er enghraifft, datblygiad a ganiateir sy'n llai na 100 metr sgwâr). Felly, ni ddylid tybio y byddai'r ffaith nad oes angen caniatâd cynllunio yn dileu'r angen i gael cymeradwyaeth SAB.

**Nid ystyrir bod hawliad yn ddilys oni fydd wedi'i gyflwyno drwy'r dudalen Hawlio Gwaith Cyfalaf a nes i anfonebau ar gyfer yr holl eitemau y mae grant yn cael ei hawlio amdanynt; llythyr cyfrifydd; ffotograffau â geotag; dogfennau cymeradwyo cynllunio a chymeradwyaeth SAB (os yw'n gymwys) gael eu cyflwyno**

**Rhaid ichi hawlio ar gyfer yr holl Brif eitemau a restrir yn eich contract.**

## Dogfennau Ategol

**Nodyn pwysig:** Rhaid ichi gyflwyno anfoneb ar gyfer pob eitem o gyfarpar yn eich contract.

Rhaid ichi hefyd gyflwyno llythyr cyfrifydd yn cadarnhau bod trosiant y busnes yn cyfateb i £1m neu lai.

Rhaid ichi gyflwyno ffotograffau â geotag **ar**

Rhaid ichi gyflwyno dogfennau cymeradwyo cynllunio neu dystiolaeth sy'n cadarnhau nad oes angen caniatâd cynllunio

Rhaid ichi gyflwyno cymeradwyaeth SAB (os yw'n gymwys)

Gallwch gyflwyno'r anfonebau, caniatâd cynllunio/cymeradwyaeth SAB drwy eu sganio a'u hanfon drwy “Fy Negeseuon” yn eich cyfrif RPW Ar-lein Gweler y ddogfen ar wahân, Grant Busnes i Ffermydd – Canllawiau ar Ffotograffau â Geotag o Orchuddion Iardiau am fanylion am sut i gyflwyno eich ffotograffau â geotag.

## Eitemau na chawsant eu cyflenwi a'u gosod neu ganiatâd cynllunio nas cadarnhawyd

Os bydd cyflenwr/gwneuthurwr wedi'ch hysbysu na all gyflenwi a chodi'r to neu na all gyflenwi a gosod yr eitemau ategol cyn y dyddiad hawlio, bydd angen ichi gysylltu â ni drwy “Fy Negeseuon” yn eich cyfrif RPW Ar-lein yn rhoi gwybod am y broblem.

Bydd angen ichi ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer hawlio a darparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi archebu'r eitem a thystiolaeth ddogfennol gan y cyflenwr a/neu gontractwr er mwyn cadarnhau na all gyflenwi neu osod yr eitem.

Os na fydd caniatâd cynllunio (lle y bo'n gymwys) wedi'i gadarnhau erbyn y dyddiad hawlio, bydd angen ichi ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer hawlio a darparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio, gan gynnwys y dyddiadau y gwnaed cais am y caniatâd.

Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio a dangos eich bod wedi ceisio sicrhau bod yr eitemau yn cael eu cyflenwi a'u gosod erbyn y dyddiad cau gwreiddiol.

## Hawliadau anghywir a chosbau

Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr mai dim ond ar gyfer cyfarpar cymwys o'r rhestr a gymeradwywyd rydych yn hawlio taliad.

Mae hefyd angen ichi sicrhau bod arwynebedd y to sydd wedi'i gynnwys yn yr hawliad wedi'i fesur yn gywir.

Rhaid i'r holl eitemau o gyfarpar a gymeradwywyd fod wedi cael eu prynu **ar ôl i'r contract gael ei dderbyn.**

Bydd eich hawliad yn anghywir os:

- byddwch wedi prynu eitem o'r math neu'r disgrifiad anghywir; neu
- byddwch wedi prynu eitemau cyn i'r contract gael ei dderbyn; neu

- na fyddwch wedi'r prynu'r holl eitemau a restrir yn y contract neu
- nad yw'r eitemau ar eich daliad pan fyddwch yn cyflwyno eich hawliad

**Rhaid ichi hawlio ar gyfer yr holl Brif eitemau a restrir yn eich contract.**

### Troseddau

Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn gymwys i'r Cynllun Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Mae enghreifftiau o droseddau yn cynnwys darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig, rhwystro archwilydd neu swyddog a gwrthod darparu gwybodaeth pan ofynnir ichi wneud hynny.

### Monitro Prosiectau

Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw bod pob grant a ddyfernir yn cael ei fonitro a bod effaith y grant ar y busnes yn cael ei gwerthuso.

Bydd yn ofynnol i gyfarpar a brynwyd gyda chymorth Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau, gael ei gadw ar y daliad, yn weithredol ac mewn cyflwr da, a'i ddefnyddio at yr un diben ag a nodir yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad

Rhaid ichi ganiatáu i swyddogion o Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r cyfarpar ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

## Adran E – Newidiadau i Reolau'r Cynllun

## Newidiadau Deddfwriaethol (Gan gynnwys Newidiadau i Ddehongliadau)

Gall Rheoliadau Ewropeaidd newid o bryd i'w gilydd a bydd gofyn ichi gydymffurfio ag unrhyw newidiadau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod ichi amdanynt.

### Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Efallai y bydd angen inni newid eich contract, a hynny am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen inni ddiweddaru'r amodau

rheoli er mwyn ystyried y cyngor gwyddonol diweddaraf, newid rheolau'r cynllun i gyd-fynd â newidiadau yn rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 neu ddiwygio cyfraddau talu. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru ac, os bydd angen, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

## Adran F – Archwiliadau a Chadw Cofnodion

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi rheolau'r Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Bydd archwiliadau yn cynnwys archwiliadau ar y fferm.

Efallai y caiff eich hawliad ei ddewis i'w archwilio cyn i'r grant gael ei dalu ichi neu efallai y caiff ei archwilio ar ôl i'r taliad gael ei wneud.

Caiff holl fanylion eich Datganiad o Ddiddordeb, manylion eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb a'r hawliad eu gwirio ar adeg yr archwiliad. Bydd hyn yn cynnwys gwirio'r ffigur ar gyfer trosiant eich busnes, sicrhau bod yr holl eitemau ar y daliad ar adeg yr archwiliad a chadarnhau'r dyddiadau y prynwyd y cyfarpar, i bwy y rhoddwyd yr anfoneb neu'r anfonebau a manylebau'r cyfarpar (lle y bo'n briodol). Bydd hyn yn cynnwys mesur yr ardal dan do ei hun.

### Archwiliadau ar y Fferm

Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff rheoli arbenigol yn ceisio sicrhau bod ymweliadau yn tarfu cyn lleied â phosibl arnoch ond weithiau bydd yn rhaid cynnal ambell archwiliad heb rybudd. Mae hyn yn golygu na fyddwn, o bosibl, yn gallu rhoi gwybod ichi ein bod yn bwriadu ymweld â'ch daliad. Mae'n bosibl y bydd gofyn inni gynnal archwiliadau fwy nag unwaith yn ystod blwyddyn galendr.

Osbyddwch yn gwrthod gadael i archwiliad gael ei gynnal neu'n rhwystro archwilydd neu'n gwrthod rhoi help rhesymol iddo, byddwch yn colli eich taliad a gallech gael eich erlyn.

### Cadw cofnodion

Bydd angen ichi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i brofi eich bod wedi rhoi gwybodaeth gywir a chyflawn inni a'ch bod wedi cydymffurfio â'ch ymrwymiadau.

Bydd hefyd angen ichi wneud y canlynol:

- Rhoi unrhyw wybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru.

- Trefnu i gofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall, gan gynnwys data ar gyfrifiadur sy'n ymwneud â'ch contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau fod ar gael i Lywodraeth Cymru, ei phersonau awdurdodedig neu ei hasiantau. Caniatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod o'r fath er mwyn gwneud copïau neu godi darnau ohoni/ohono.

# Y Weithdrefn Apelio a Chwyno

### Y weithdrefn apelio

Mae'r '*Broses Apelio Annibynnol i Ffermwyr a Choedwigwyr yng Nghymru'* yn eich galluogi i ofan am adolygiad os byddwch o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad cywir yn ôl rheolau'r cynllun. Bydd y broses yn adolygu penderfyniadau ynghylch ycanlynol:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) (a Chynllun y Taliad Sengl (SPS))
- holl gynlluniau Glastir
- materion a nodwyd ar ôl 1 Ionawr 2007 ar gyfer:
- Cynllun Coetir Ffermydd, Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd, Premiwm Tir wedi'i Wella.

Mae dau gam i'r broses apelio:

- Cam 1: adolygiad gan RPW
- Cam 2: adolygiad gan Banel Apeliadau Annibynnol (os na fyddwch yn fodlon ar ymateb Cam 1).

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, sydd wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol sy'n dod â'r broses i ben.

Ni chodir tâl am Gam 1 o'r broses ond codir tâl yng Ngham 2 – £50 am wrandawiad ysgrifenedig neu £100 am wrandawiad llafar.Caiff y taliadau hyn eu had-dalu'n llawn os bydd apêl Cam 2 yn rhannol neu'n gwbl lwyddiannus.

Rhaid i apeliadau, gan gynnwys tystiolaeth ategol, gael eu derbyn o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y llythyr sy'n nodi'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb i unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg os mai dyna eich dewis iaith. Nifydd hyn yn arwain at oedi.

Ceir manylion pellach am y broses apelio gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ar ein gwefan yn: https://llyw.cymru/apeliadau-grantiau-a-thaliadau-gwledig.

**Y weithdrefn gwyno**

Ymdrinnir â chwynion o dan weithdrefn gwyno Llywodraeth Cymru. Mae cyngor pellach ar sut i wneud cwyn ar gael gan y Tîm Cyngor ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378

E-bost: complaints@gov.wales

https://llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru

Mae'n bosibl hefyd y byddwch am gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:1

Ffordd Yr Hen Gae

Pencoed,

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Gwefan: https://www.ombwdsmon.cymru/

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu mewn cysylltiad â’ch cais am gymorth o dan daliad Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020. Mae’n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a’ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Y rheolydd data ar gyfer y wybodaeth yw Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Y swyddog diogelu data ar gyfer yr un wybodaeth yw’r Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru

Caiff y wybodaeth ei phrosesu a'i rheoli gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i rhwymedigaethau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1303/2013
- Rheoliadau'r Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1307/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 907/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 908/2014
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) Rhif 679/2016

Caiff y wybodaeth ei defnyddio'n bennaf at ddibenion prosesu ceisiadau am gymorth ariannol a phenderfynu arnynt. Fodd bynnag, caiff Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a roddwyd at ddibenion eraill a fydd yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i rhwymedigaethau amgylcheddol statudol.

Sail gyfreithiol y prosesu yw bod ei angen i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data personol er mwyn nodi eich lleoliad chi a lleoliad eich busnes(au) fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu unrhyw ddata categori arbennig.

Prosesir y data drwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel allwedd bwysig ar gyfer y rhan fwyaf o adroddiadau.

Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014, "Conservation of Accounting Information".

**Rhesymau dros rannu data personol**

O dan ddeddfwriaeth yr UE, mae'n rhaid sicrhau bod cynllun yn gymwys, ac er mwyn gwneud hyn, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth â'r cyrff canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaethyddiaeth eraill Llywodraeth y DU

Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Gellir defnyddio'r wybodaeth at y dibenion canlynol:

- Trawsgydymffurfio a chroeswirio rhwng sefydliadau Llywodraethol er mwyn atal achosion o dorri telerau cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- paratoi a chyhoeddi mapiau sy'n dangos yr ardaloedd o dir sydd wedi cael cymorth o dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- llunio adroddiadau o ddata cyfanredol a/neu ystadegau cryno i'w cyhoeddi.
- llywio penderfyniadau ynghylch newidiadau polisi a chyllid, gan gynnwys astudiaethau ymchwil a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn llywio'r gwaith o Fonitro a Gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig.
- adnabod tirfeddianwyr/defnyddwyr os bydd argyfwng, e.e. rheoli clefydau ac achosion o dorri rheolaethau.
- diogelu buddiant ymgeisydd mewn cadwraeth tir a materion a all godi oherwydd ymholiadau ynglŷn ag arian.
- galluogi sefydliadau partner i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.
- gellir ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn ei defnyddio i atal achosion o dwyll a gwyngalchu arian a chadarnhau pwy ydych.
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.

**Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth**

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, gall fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol.

Mae Rheoliad y Comisiwn (CE) 908/2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Caiff data eu cyhoeddi ar gyfer pob buddiolwr ar wefan chwiliadwy a byddant yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir ynghyd â manylion y symiau a'r cynlluniau y mae cymhorthdal wedi'i dalu ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd y wybodaeth ar gael ar wefan Defra.

**Hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**

Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a ddelir amdanynt. Mae'rhawliau hyn yn cynnwys y canlynol:

- yr hawl i gael eich hysbysu (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn am gopïau o'r data personol a ddelir gan Lywodraeth Cymru amdanynt a'u gweld, er y gall Llywodraeth Cymru weithiau atal rhywfaint o ddata neu beidio â rhoi copïau
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal Llywodraeth Cymru rhag prosesu data personol neu gyfyngu ar y data y gall eu prosesu
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am i ddata anghywir gael eu cywiro
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i ofyn am i ddata gael eu dileu (eu hanghofio).

Os byddwch am arfer unrhyw un o'ch hawliau o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru yn ycyfeiriad a roddir ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

Mae gan unigolion hefyd yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, asesu p'un a yw'r gwaith o brosesu eu data personol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau'r Rheoliad Cyffredinol ar DdiogeluData ai peidio. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: www.ico.org.uk

## Cysylltiadau

### Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer pob ymholiad, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**

Gellir cyflwyno ymholiadau drwy RPW Ar-lein unrhyw bryd.

### Mynediad i swyddfeydd Llywodraeth Cymru i bobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad ydynt yn cael eu diwallu gan ein cyfleusterau, yn eich barn chi, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Wedyn, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud trefniadau i fodloni eich gofynion.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Amaethyddol a Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Drwy fynd i'r wefan, gallwch hefyd gofrestru i gael yr e-gylchlythyr Materion Gwledig a fydd yn anfon y newyddion diweddaraf yn uniongyrchol i fewnflwch eich e-bost.

### Gwlad

Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru i fusnesau fferm a choedwigaeth a phawb sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, arweiniad a gwybodaeth mewn fformat hygyrch sy'n hawdd i'w ddarllen. Er mwyn clywed y newyddion diweddaraf am fyd amaeth a chael gwybod am ddatblygiadau yn y dyfodol, byddem yn eich annog i gofrestru i gael e-gylchlythyr Gwlad. Gallwch wneud hyn naill ai yn https://llyw.cymru/hysbysiadau neu yn https://llyw.cymru/cofrestrwch-ar-gyfer-newyddion-amaethyddiaeth-choedwigaeth-gwlad.

## Atodiad A – Rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys

Sylwer: Mae'r disgrifiadau o'r eitemau wedi'u diweddaru ar gyfer ail ffenestr cais Grant Busnes Fferm – Gorchuddio Iardiau.

Wrth gyflwyno cais bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos bod yr ardal yn bodloni'r gofynion yn llawn.

### Prif eitemau

| | Eitem | Disgrifiad a lleiafswm y gofynion | Maes Ffocws | Sgôr | Cost safonol | Gwerth y Grant |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | To – ardal bwydo da byw | Strwythur y to yn dal dŵr glaw, gan gynnwys y pyst cynnal unionsyth, gan gynnwys gwteri a phibellau i lawr, dros ardal fwydo da byw bresennol heb orchudd.<br><br>Bydd gan yr ardal gyfan o dan y to lawr concrid sy'n bodoli eisoes sy'n dal dŵr.<br><br>Rhaid cynnwys yr holl slyri yn yr ardal yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i ddargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n addas neu danc derbyn priodol.<br><br>Pan fydd man derbyn neu storfa newydd wedi'i osod i gasglu'r slyri, rhaid cyflwyno o leiaf 14 diwrnod o rybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ysgrifenedig cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu system casglu dŵr glaw.<br><br>Rhaid amgáu'r man bwydo i gadw da byw gyda waliau neu rwystrau parhaol, gan gynnwys gatiau ynddo, lle bo hynny'n berthnasol.<br><br>Dylid defnyddio'r ardal drwy gydol cyfnod bwydo'r gaeaf gyda da byw yn cael eu bwydo drwy drefniadau bwydo parhaol. Pan ddefnyddir porthwyr dros dro neu symudol, (e.e. i fwydo byrnau crwn) bydd angen tystiolaeth i ddangos sut mae'r ardal yn | 5d | 32 | £90.00 msg | £36.00 msg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymwneud â llochesi anifeiliaid a mynediad i ddŵr a bod yr ardal yn ardal fwydo barhaol.<br><br>Nid yw hunan-fwydo mewn storfeydd silwair a/neu storfeydd silwair a ddefnyddir fel mannau bwydo yn gymwys o dan yr eitem hon. Dylid cyflwyno'r rhain fel storfeydd silwair.<br><br>Nid yw corlannau naddion pren a buarthau gwellt heb sylfaen sy’n dal dŵr a lle nad yw slyri yn cael ei gasglu yn gymwys | | | | |
| 2 | To – ardal casglu da byw | Strwythur y to yn dal dŵr glaw, gan gynnwys y pyst cynnal unionsyth, gan gynnwys gwteri a phibellau i lawr, dros ardal fwydo da byw bresennol heb orchudd.<br><br>Bydd gan yr ardal gyfan o dan y to lawr concrid sy'n bodoli eisoes sy'n dal dŵr.<br><br>Rhaid cynnwys yr holl slyri yn yr ardal yn unol â'r rheoliadau cyfredol a'i ddargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n addas neu danc derbyn priodol.<br><br>Pan fydd man derbyn neu storfa newydd wedi'i osod i gasglu'r slyri, rhaid cyflwyno o leiaf 14 diwrnod o rybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ysgrifenedig **cyn** i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu system casglu dŵr glaw.<br><br>Rhaid amgáu'r man ymgasglu i gadw da byw gyda waliau neu rwystrau parhaol, gan gynnwys gatiau ynddo, lle bo hynny'n berthnasol.<br>Rhaid dangos diben y man casglu; e.e. buarth casglu ar gyfer parlwr godro neu fynediad i system drin barhaol.<br><br>Nid yw ardaloedd lle mae da byw yn teithio'n anaml rhwng adeiladau neu fuarthau agored yn gymwys. | 5d | 30 | £90.00 msg | £36.00 msg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nid yw ardaloedd lle caiff slyri ei sgrapio o adeiladau i storfa ar draws buarthau agored heb unrhyw weithgarwch da byw yn gymwys.<br><br>Mannau casglu ar gyfer systemau trin da byw: Rhaid i'r systemau trin fod yn barhaol ac yn sownd i'r llawr, nid yw to dros systemau trin symudol yn gymwys.<br><br>Dim ond os yw'r holl slyri, dŵr ffo a dŵr brwnt o olchi a gynhyrchir wedi'u cynnwys yn unol â'r gofynion rheoliadol cyfredol a'u dargyfeirio i storfa wedi'i hadeiladu'n briodol neu danc derbyn priodol y mae systemau trin defaid neu wartheg presennol yn gymwys. | | | | |
| 3 | To – ardal storio tail | Strwythur y to yn dal dŵr glaw, gan gynnwys y pyst cynnal unionsyth, gan gynnwys gwteri a phibellau i lawr, dros ardal storio tail bresennol heb orchudd.<br><br>Rhaid i'r storfa fod ar gyfer tail buarth fferm (solet) ac **nid slyri**.<br>Byddai'r storfa'n addas ar gyfer unrhyw sarn sydd wedi'i halogi ag unrhyw dail organig y gellir ei stacio heb syrthio.<br>Bydd gan yr ardal gyfan o dan y to lawr concrid sy'n bodoli eisoes sy'n dal dŵr.<br>Mae'r dŵr ffo hylifol sy'n dod o dail solet sy'n cael ei storio ar arwyneb sy'n dal dŵr yn cael ei ystyried yn slyri a rhaid ei gynnwys yn briodol. Rhaid dargyfeirio'r slyri hwn i storfa slyri sy'n bodoli eisoes neu bwll derbyn priodol. Os nad oes storfa ar gael ar hyn o bryd, rhaid cynnwys pob elifiant yn y cyfleuster.<br>Pan fydd pwll derbyn newydd wedi'i osod i gasglu'r slyri, rhaid cyflwyno o leiaf 14 diwrnod o rybudd i CNC yn ysgrifenedig cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br>Bydd gwaelod waliau allanol yn dal dŵr i atal hylifau llygredig rhag mynd allan, neu i atal dŵr rhag mynd i mewn.<br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw. | 5d | 24 | £90.00 msg | £36.00 msg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | To – storfeydd slyri | Strwythur y to yn dal dŵr glaw, gan gynnwys y pyst cynnal unionsyth, gwteri a phibellau glaw, dros ardal storio slyri bresennol heb orchudd.<br><br>Bydd gwaelod y storfa a'r waliau yn dal dŵr i atal hylifau llygredig rhag mynd allan ac i atal dŵr rhag mynd i mewn.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw.<br><br>Mae to uwchben storfeydd cylchol y ddaear yn anghymwys.<br><br>Os yw adeiladu to dros storfa slyri yn debygol o effeithio ar gyfanrwydd y strwythur presennol, rhaid i chi hysbysu CNC cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau: Mae angen o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig cyn i'r gwaith o adeiladu unrhyw storfa newydd, wedi'i hehangu neu ei hailadeiladu'n sylweddol sy'n cynnwys slyri ddechrau.<br>Argymhellir yn gryf eich bod yn lleihau'r risg o golli unrhyw eithriad sydd gennych ar hyn o bryd ar gyfer eich storfa ac yn lleihau'r risg o dderbyn hysbysiad gorfodi drwy gynnwys CNC yn gynnar yn y cam cynllunio er mwyn atal gwallau costus rhag cael eu gwneud.<br><br>Noder, os oes angen caniatâd cynllunio arnoch, mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio. | 5d | 22 | £90.00 msg | £36.00 msg |
| 5 | To – storfeydd silwair | Strwythur y to yn dal dŵr glaw, gan gynnwys y pyst cynnal unionsyth, gwteri a phibellau glaw, dros storfeydd silwair bresennol heb orchudd.<br><br>Bydd gwaelod y storfa a'r waliau yn dal dŵr i atal hylifau llygredig rhag mynd allan ac i atal dŵr rhag mynd i mewn.<br><br>Rhaid dargyfeirio dŵr glân o'r to i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw. | 5d | 14 | £90.00 msg | £36.00 msg |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhaid cynnwys elifiant o'r storfa mewn tanc elifiant neu storfa slyri sy'n bodoli eisoes<br><br>Pan fydd tanc wedi'i osod i gasglu'r elifiant silwair, rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i CNC cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>Nid yw'n gymwys i doi dros ardaloedd storio ar gyfer byrnau silwair wedi'u lapio.<br><br>Mae adeiladu to dros storfa silwair yn debygol o effeithio ar gyfanrwydd y strwythur presennol: Rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i CNC cyn i'r gwaith o adeiladu storfa newydd, wedi'i hehangu neu ei hailadeiladu'n sylweddol sy'n cynnwys silwair ddechrau. Argymhellir yn gryf eich bod yn lleihau'r risg o golli unrhyw eithriad sydd gennych ar hyn o bryd ar gyfer eich siop ac yn lleihau'r risg o dderbyn hysbysiad gorfodi drwy gynnwys CNC yn gynnar yn y cam cynllunio er mwyn atal gwallau costus rhag cael eu gwneud.<br><br>Noder, os oes angen caniatâd cynllunio arnoch, mae CNC yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio. | | | | |

## Eitemau ategol:

| | Eitem | Disgrifiad | Maes Ffocws | Cost safonol | Gwerth y Grant |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Draeniau Croes | Draeniau Croes, sy'n cynnwys prynu a gosod system ddraenio amlsianel â gratin. Ar ôl iddi gael ei gosod, dylai'r sianel allu dal pwysau peiriannau trwm sy'n symud yn araf. Gweler Atodiad B. | 5d | £82.20 yr un | £32.88 yr un |
| 7 | Cwrbin | Cwrbin, yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500, er mwyn cyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylai danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Gweler Atodiad B. | 5d | £39.78 m | £15.91 m |
| 8 | Dargyfeiryddion Dŵr ar draws Ffordd ('Sleeping Policemen') | Dargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd, yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500, er mwyn cyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddynt fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylent danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Gweler Atodiad B. | 5d | £36.36 m | £14.54 m |
| 9 | Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw) | Nwyddau Dŵr Glaw (Cafnau Glaw). Mae hyn ar gyfer darparu cafnau glaw newydd ar adeiladau fferm sy'n bodoli eisoes. Rhaid cyfeirio dŵr glân o gafnau glaw newydd i mewn i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw. Gweler Atodiad B. | 5d | £9.02 m | £3.61 m |
| 10 | Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw) | Nwyddau Dŵr Glaw (Pibellau Glaw). Mae hyn ar gyfer darparu pibellau glaw newydd ar adeiladau fferm sy'n bodoli eisoes. Rhaid cyfeirio dŵr glân o bibellau glaw newydd i mewn i ddraen dŵr glân neu system cynaeafu dŵr glaw. Gweler Atodiad B. | 5d | £15.04 m | £6.02 m |
| 11 | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Ar wyneb y ddaear) | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Ar wyneb y ddaear). Tanc ar wyneb y ddaear, system hidlo a thapiau a ffitiadau cysylltiedig. Maint gofynnol y tanc 10,000 o litrau o leiaf. Rhaid iddo gynnwys system hidlo 'ar fynediad'. Rhaid dargyfeirio gorlif i ddraen dŵr glân. Rhaid i'r dŵr allu cael ei ddefnyddio at ddibenion glanhau neu olchi neu i'w yfed. (Rhaid iddo fod wedi'i gysylltu â system addas).<br>Dylai'r tanc fod wedi'i osod ar sylfaen addas, naill ai tywod neu goncrid ar lefel y ddaear, neu ar sylfaen adeiledig er mwyn darparu lle clir ar gyfer unrhyw allfa. Rhaid dargyfeirio gorlif i ddraen dŵr glân. | 5b | £2,500.00 yr un | £1,000.00 yr un |
| 12 | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Dan y ddaear) | Systemau cynaeafu a hidlo dŵr glaw (Dan y ddaear) Cesglir dŵr glaw o arwynebedd to o 1,000 msg o leiaf. Tanc dan y ddaear, system hidlo a chysylltwyr a ffitiadau cysylltiedig, pwmp dŵr, hidlydd golau uwchfioled (UV). Maint gofynnol y tanc 20,000 o litrau o leiaf. Rhaid iddo gynnwys system hidlo 'ar fynediad'. Rhaid cyfeirio gorlif i ddraen dŵr glân. Rhaid i'r dŵr allu cael ei | 5b | £9,000.00 yr un | £3,600.00 yr un |

| | Eitem | Disgrifiad | Maes Ffocws | Cost safonol | Gwerth y Grant |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ddefnyddio at ddibenion glanhau neu olchi neu i'w yfed. (Rhaid iddo fod wedi'i gysylltu â system addas). | | | |
| 13 | Cyfarpar dadansoddi slyri | Cyfarpar dadansoddi slyri sy'n addas i'w ddefnyddio ar y fferm i fesur y lefelau nitrogen sydd ar gael mewn slyri / tail buarth. | 5d | £415.00 yr un | £166.00 yr un |

## Mae’r matrics sgorio ar gyfer ail ffenestr ymgeisio Grant Busnes Fferm – Gorchuddion Iardiau wedi ei ddiwygio i gynnwys haenau sgorio ychwanegol

| A | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | L |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Sgôr Gwelliant (OND I'W GYNNWYS YN Y SGÔR TERFYNOL OS YN GYMWYS) | | | | | | |
| **Ardal â Blaenoriaeth o ran Ansawdd Dŵr** | **Lluosydd Ardal â Blaenoriaeth o ran Ansawdd Dŵr** | **Sgôr yr eitem** | **Ardal â Blaenoriaeth o ran Swm Dŵr** | **Pwyntiau Ardal â Blaenoriaeth o ran Swm Dŵr** | **Tystiolaeth o Faterion Maethynnau** | **SoDdGA Biolegol a 300m o Lain Clustogi** | **Gwyniad** | **Afonydd Sensitif** | **Llynnoedd Sensitif** | **Misglen Berlog yr Afon** | **Sgôr derfynol = (BxC)+E+F+G+H+I+J+K** |
| 1 | 100 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 2 | 80 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 3 | 70 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 4 | 50 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| 5 | 20 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| NA | 10 | Mewnosodwch sgôr y brif eitem | 1 | 10 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 2 | 20 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 3 | 100 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 4 | 180 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 5 | 320 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 6 | 600 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 7 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | 8 | 200 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |
| | | | Dd/G | 5 | 8 | 6 | 6 | 4 | 4 | 4 | |

# Atodiad B – Nodiadau technegol

## DRAENIAU CROES (Amlsianel)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer ‘Draeniau Croes (amlsianel)’, fel y'i nodir yn eich contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

Sianel agored yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ryng-gipio dŵr ffo o lwybrau ac iardiau, am y gellir clirio silt a gweddillion cronedig ohoni'n hawdd. Wedyn, gellir dargyfeirio'r dŵr hwn i ffosydd, pantiau a thrapiau gwaddodion er mwyn sicrhau na chaiff afonydd gerllaw eu llygru yn ystod fflachlifoedd.

Bydd y gwaith yn cynnwys prynu a gosod system ddraenio amlsianel â gratin. Ar ôl iddi gael ei gosod, dylai'r sianel allu dal pwysau peiriannau trwm sy'n symud yn araf

Y lleiafswm o waith a ddisgwylir:

- Cloddio ffos ar draws lled y llwybr neu ar hyd rhan o'r buarth, gan sicrhau ei bod yn ddigon dwfn a llydan ar gyfer y sylfaen a'r amgylchyn concrid.
- Gwneud yn siŵr bod allfa'r ffos hon yn rhedeg i ffos neu bant addas neu rywle lle mae'r dŵr glân yn dal i fod wedi'i wahanu oddi wrth ddŵr brwnt.
- Gwneud yn siŵr bod sylfaen y ffos yn disgyn yn raddol tuag at yr allfa, gan ddilyn dyfnder y sianel arfaethedig.
- Sicrhau bod unrhyw saethau ar ochr y sianel yn pwyntio at yr allfa h.y. i gyfeiriad y llif.
- Pennu lefelau a gosod y sianeli wrth ochr y ffos, gan ddechrau wrth yr allfa bob amser.
- Arllwys y sylfaen – Dechreuwch wrth yr allfa, dylech arllwys sylfaen goncrid o ansawdd da i mewn i'r ffos.
- Gan weithio i ffwrdd oddi wrth yr allfa, gostyngwch y sianeli i lawr i'w lle gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.
- Cadarnhau bod aliniad y sianel yn briodol.
- Dylai'r gratin gael ei osod yn llac a'i lapio â phlastig, gan rychwantu uniadau'r sianel er mwyn sicrhau gosodiad terfynol glân.
- Wedyn, gallwch arllwys yr amgylchyn concrid i mewn i'r ffos, gan sicrhau na therfir ar linell y llwybr. Dylai orffen 3mm uwchlaw'r sianel ac arwyneb uchaf y gratin.
- Pan fydd y concrid wedi caledu, codwch y gratin a thynnwch y plastig amddiffynnol.
- Er mwyn dal pwysau peiriannau sy'n symud yn araf, mae angen gosod sylfaen ac amgylchyn concrid o 200m o leiaf, oni nodir yn wahanol gan gyfarwyddiadau gosod system amlsianel.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich contract.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.



## CWRBIN

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer ‘Cwrbin’, fel y'i nodir yn eich contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

Gall fod yn briodol defnyddio Cwrbin ar draws neu ar hyd y llwybr er mwyn cyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddo fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylai danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Ar gyfer llwybrau, dylai gwaith gynnwys y canlynol:

- Cloddio ffos ar draws llwybr sydd o leiaf 300mm o ddyfnder.
- Llenwi'r ffos â choncrid a lletemu cerrig cwrb sy'n ymwthio allan o'r llwybr.
- Tampro'r concrid ar ochr isaf y llwybr hyd at ymyl y garreg gwrb.
- Gadael concrid ar wyneb y llwybr yn wastad islaw lefel y garreg gwrb.
- Cerrig cwrb – 900mm x 255mm x 125mm ('half battered')
- Dylid cyfeirio'r dŵr o'r cwrbin i allfa ddraenio sefydlog megis ffos, cwlfert neu arllwysfa ddraenio arall.
- Dylid gwneud gwaith concrid yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich contract.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.

## 569 DARGYFEIRYDDION DŴR AR DRAWS FFORDD ('SLEEPING POLICEMEN')

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer ‘Dargyfeiryddion Dŵr ar draws Ffordd’, fel y'i nodir yn eich contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

Gall dargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd (twmpathau croes) fod yn briodol i gyfeirio dŵr oddi ar y llwybr. Rhaid iddynt fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll symudiadau cerbydau fferm ac ni ddylent danseilio'r llwybr mewn unrhyw ffordd. Mae'r bwlch a adewir rhwng y twmpathau croes yn hollbwysig a dylech geisio cyngor os oes angen. Ar gyfer llwybrau, dylai gwaith gynnwys y canlynol:

- Cloddio ffos ar draws llwybr sydd o leiaf 100mm o ddyfnder
- Lletemu concrid i mewn i'r ffos a hyd at uchder o 150mm o leiaf uwchlaw lefel y llwybr.
- Dylid gwneud gwaith concrid yn unol â'r Safonau Prydeinig perthnasol, sef BS 8000 a BS 8500.
- Dylid cyfeirio'r dŵr o'r dargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd i allfa ddraenio sefydlog megis ffos, cwlfert neu arllwysfa ddraenio arall.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich contract.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.

## NWYDDAU DŴR GLAW (CAFNAU GLAW)
## NWYDDAU DŴR GLAW (PIBELLAU GLAW)

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon ofynnol o waith y mae angen ei sicrhau er mwyn cael taliadau ar gyfer 'Nwyddau Dŵr Glaw – Cafnau Glaw' a 'Nwyddau Dŵr Glaw – Pibellau Glaw', fel y'i nodir yn eich Contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau. Lle y ceir dulliau neu arddulliau traddodiadol lleol sy'n gwyro oddi wrth y safon hon, gellir defnyddio'r rhain, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw wyriad sylweddol.

**Nwyddau dŵr glaw**

Mae hyn ar gyfer darparu nwyddau dŵr glaw (pibellau glaw) newydd lle mae nwyddau dŵr glaw aneffeithiol sy'n bodoli eisoes yn gollwng dŵr glân i iardiau wedi'u baeddu neu lle mae dŵr glân yn llifo i iardiau o'r fath am nad oes unrhyw nwyddau dŵr glaw i'w ddargyfeirio. Mae'r opsiwn hwn ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes yn y buarth nad oes ganddynt nwyddau dŵr glaw ar hyn o bryd neu sydd â nwyddau dŵr glaw sydd wedi mynd y tu hwnt i'w hoes ddefnyddiol ac y mae angen gosod rhai newydd yn eu lle. Rhaid cyfeirio dŵr glân o nwyddau dŵr glaw newydd i mewn i ddraen dŵr glân.

Nid yw nwyddau dŵr glaw ar adeiladau newydd arfaethedig yn gymwys i gael grant, am y dylai'r rhain gael eu cynnwys fel rhan o'r prif brosiect i godi to newydd.

Pan fo risg y caiff nwyddau dŵr glaw eu difrodi gan dda byw, dylid rhoi mesurau amddiffyn addas ar waith.

**Dylai gwaith:**

- Fodloni gofynion Cynllunio Gwlad a Thref.
- Bod wedi'i gynllunio'n briodol at y dibenion amaethyddol y bwriedir ei ddefnyddio ar eu cyfer.
- Cael ei wneud dim ond pan fyddwch wedi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch eich asesiad o ddŵr glân ac ynghylch caniatadau gollwng.
- Defnyddio cafnau glaw, pibellau glaw a bracedau sy'n bodloni BS EN 607, BS EN 12200 a BS EN 1462 ac sy'n briodol o ran eu maint i ddelio â swm y dŵr o'r to.
- Dylai gwaith gosod fodloni'r holl Safonau Prydeinig perthnasol, e.e. BS 5502, BS EN1917. Dylai gwaith draenio gydymffurfio â BS 8000, BS EN 752 a BS EN 1610.
- Cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch a Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007.
- Cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999.

Mae'r rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr a'r hunangyflogedig i gynnal asesiad addas a digonol o'r risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith y maent yn ei wneud. Gelli lawrlwytho pecyn meddalwedd hunanasesu HSE i ffermydd, sydd am ddim, o:

www.hse.gov.uk/agriculture/assessment.

Efallai y bydd angen cael caniatâd neu drwydded ar gyfer gwaith penodol y byddwch, o bosibl, yn ei wneud o dan eich Contract Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau cyn dechrau arno. Sicrhewch eich bod yn gwneud y gwaith yn unol â'r trwyddedau neu'r caniatâd a roddir yn eich contract.

Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni wrth wneud unrhyw waith.